

Sut i ddeall cytundebau masnach newydd y DU a'u goblygiadau i iechyd a llesiant ar y boblogaeth yng Nghymru



Am dros bedwar degawd, mae'r UE wedi delio â'r rhan fwyaf o bolisi masnach y DU. Nawr, wrth i'r wlad adennill ymreolaeth dros ei phenderfyniadau polisi masnach, rhaid i'r llywodraeth ystyried ei hymagwedd yn ofalus wrth ddilyn cytundebau masnach rydd. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi cytuno ar gytundeb masnach gyda'r UE, ac yn ddiweddar, mae wedi gwneud cais ffurfiol i ymuno ag un o gytundebau masnach rydd mwyaf y byd, sef Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP).

Bydd gan y ddau gytundeb hyn oblygiadau sylweddol i ystod o benderfyniadau iechyd gan gynnwys safonau bwydydd, rheoliadau tybaco ac alcohol, amodau gwaith a diogelu'r amgylchedd ar draws pedair gwlad y DU, sy'n cynnwys Cymru. Ond a yw system iechyd y cyhoedd yn barod i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd iechyd y gallai'r cytundebau hyn eu cynnig, ac a all liniaru unrhyw risgiau posibl? Beth fydd y goblygiadau i Gymru?

Nod y **dosbarth meistr rhithwir dwy ran** hwn yw rhoi dealltwriaeth well a manylach i arbenigwyr iechyd y cyhoedd, llunwyr polisi ac arweinwyr y sector cyhoeddus o sut y gallai cytundebau masnach y DU-UE a CPTPP ddylanwadu ar benderfyniadau iechyd a llesiant. Y nod yw rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i gyfranogwyr i gefnogi gwell eiriolaeth dros iechyd a thegwch iechyd ym maes polisi masnach.

Rhan 1

Bydd Rhan 1 yn canolbwyntio ar yr effeithiau iechyd a ddaw wrth i'r DU ymuno â'r Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP).

Pryd: Dydd Mawrth 27 Ebrill 2021,
1pm-2:30pm AHP

[COFRESTRWCH YMA](#)

Rhan 2

Bydd Rhan 2 yn canolbwyntio ar yr effeithiau iechyd mewn perthynas â Chytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU-UE.

Pryd: Dydd Mawrth 11 Mai 2021,
1pm-2:30pm AHP

[COFRESTRWCH YMA](#)

Arweinir y dosbarth meistr gan [Dr. Courtney McNamara](#), Uwch Gydymaith Ymchwil yn y Ganolfan Ymchwil Anghydraddoldebau Iechyd Byd-eang.

Bydd pob sesiwn yn cynnwys:

- Trosolwg o ganfyddiadau asesiadau blaenorol o'r effaith ar iechyd mewn perthynas â chytundebau masnach rydd;
- Dadansoddiad o'r iaith a ddefnyddir mewn cytundebau masnach, gyda ffocws ar sut i'w dehongli, a'r hyn y mae'n ei olygu ar gyfer iechyd a llesiant;
- Dadansoddiadau ymarferol o bob cytundeb a'r goblygiadau ar gyfer iechyd, llesiant a'r GIG yn y DU.

Cynulleidfa: Llunwyr polisi, arweinwyr sector cyhoeddus, y trydydd sector, arbenigwyr iechyd y cyhoedd

Gall cyfranogwyr gofrestru ar gyfer un neu ddwy ran

Cyswllt: WHIASU.iechydcyhoedduscymru@wales.nhs.uk



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



WHIASU
Wales Health Impact
Assessment Support Unit
Uned Gymorth Asesu
Effaith ar Iechyd Cymru